Newyddion Mis Awst 2011

Munud i Feddwl - 31 Awst 2011

"That right, Kemo Sabe", meddai *Tonto,*"beth am wlychu'r Gweinidog o'i gorryn i'w sawdl gyda'r *Super Soaker Scatter Blast*. Bydd hynny'n dipyn o hwyl!" "Faint o hwyl fydd e, a beth yw'r goblygiadau?", yw cwestiwn y Gweinidog yn ei Funud i Feddwl yr wythnos hon. Beth ddylai'n hymateb ni, fel Cristnogion, fod i'r *Super Soaker Scatter Blast* a *Call of Duty: Black Ops?*(Llun: The Lone Ranger, Tonto a Silver)

Epaffras, Eglwys Colosae, Babel a Bethel - 28 Awst 2011

Cafwyd cyfle heddiw eto yn nwy Oedfa'r Sul, yn ein gweddïau a'n cyfraniadau ariannol i gofio am drigolion Dwyrain Affrica. Yn ôl Cymorth Cristnogol cynyddu mae'r niferoedd sy'n wynebu prinder bwyd eithafol o ganlyniad i'r sychder mawr, cynaeafau yn methu, prisiau uchel ar fwyd, terfysg, a digartrefi a mudo.

Ni fu Paul erioed yn Ngholosae, ond yn ystod ei gyfnod yn Effesus danfonwyd cenhadon allan trwy'r dalaith i sefydlu eglwysi yn y prif ganolfannau. Un o'r cenhadon oedd Epaffras; gwr a anwyd yng Ngholosae ac a ddychwelodd adref, o dan gyfarwyddyd Paul, i rannu ei ffydd â'i gyd-ddinasyddion. Yn yr olaf o'r gyfres o Astudiaethau Awst mae'r Gweinidog yn trafod rôl Epaffras (Llun: Epaffras: Eglwys Dewi Sant, Thessalonica) fel **cenhadwr**, fel **carcharor** ac fel **caethwas**. 'Roedd Epaffras ymhlith caethweision Crist; lloriwyd ef gan Gariad Crist. Dygwyd ef yn gaeth ond gwyddai am gaethiwed sy'n rhyddid perffaith, a'r ymgysegriad sy'n arwain ar fywyd ystyrlon a gogoneddus.

Y Parchedig Gareth Morgan Jones o Bontardawe oedd ein Pregethwr Gwâdd heddiw, a ninnau'n ymuno â'n cyfeilion yn Eglwys Ebeneser. Bu'n Cennad yn weinidog yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, cyn symud i lawr i'r De yn 1977. Yn Gyn-Lywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg bu hefyd yn Gadeirydd Adran Dinasyddiaeth Gristnogol yr Undeb am gyfnod o chwe blynedd. Ef bellach yw Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. Yn cyd-redeg ag **Astudiaeth Awst** ein Gweinidog am yr wythnos hon, soniodd ein Pregethwr Gwâdd yn yr **Oedfa Foreol** am Epaffras a Llythyr yr Apostol Paul (Llun: *Saint Paul Writing his Epistles* gan Valentin de Boulogne (1591-1632) neu Nicolas Tournier (1590-1639)) at yr Eglwys yng Ngholosae (Llun isod: Safle tybiedig Colosea wrth droed Mynydd Cadmus, Asia Leiaf (Twrci)). Ysgrifenna Paul at aelodau'r Eglwys gan ei hatgoffa o holl ymdrechion Epaffras yn meithrin dealltwriaeth o'r Ffydd yn eu mysg; cyfeiria hefyd at yr heresïau a oedd wedi arwain i ddirywiad yn eu cenhadaeth. Ymysg yr heresïau a ymddangosodd oedd y syniad mai un amlygiad ymysg nifer o Dduw oedd Iesu Grist; magwyd hefyd dueddiad i gasglu gorau crefyddau o bob math at ei gilydd. Ymateb Paul oedd geiriau'r testun: *"Fy nod yw eu **calonogi** a'u clymu ynghyd mewn **cariad**, iddynt gael holl gyfoeth y sicrwydd a ddaw yn sgil **dealltwriaeth**, ac iddynt*

amgyffred *dirgelwch Duw, sef Crist.* ***Ynddo ef*** *y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig."* (Colosiaid 2: 2-3) Onid oes neges i ni yn 2011 yn y geiriau hyn? Cyffredin y beirniadu o'r Eglwys, ac aml y siom wrth weld y dirywiad o'n cwmpas - ein gwaith ni fel Cristnogion yw **calonogi** ac annog ein gilydd i ddal ati ac i wneud gwaith yr Arglwydd doed a ddelo. Cofiwn hefyd mai cymuned yn **caru** ei gilydd, a charu cyd-ddyn, yw'r Eglwys Gristnogol; nid oes lle yng nghymdeithas yr Eglwys i gasineb, dig a malais aeddfedu. Daw sicrwydd yng Nghrist i'w ddilynwyr trwy ddod i ddeall y Gwirioneddau Mawr; rhaid agor calon, agor enaid ac agor meddwl i ddod i **ddeall** yr Efengyl ac anodd gwneud hynny heb dderbyn arweiniad pregeth a dehongliad, mynychu Ysgol Sul ac Astudiaeth Feiblaidd, a myfyrdod personol o'r Ysgrythur. O astudio'r Gair deuwn i *"**amgyffred** yr hwn sydd ... uwchlaw gwybodaeth*" (Effesiaid 3: 18 - 19). Yng nghanol heresïau'n hoes, daliwn ninnau yn gryf yn y wybodaeth mae Crist, a Christ yn unig, yw "**Trysor Datguddiad Duw**" (Parchedig Eirian Davies 1918 - 98):

"O agor fy llygaid i weled dirgelwch dy arfaeth a'th air,
mae'n well i mi gyfraith dy enau na miloedd o arian ac aur;
y ddaear â'n dân, a'i thrysorau, ond geiriau fy Nuw fydd yr un;
y bywyd tragwyddol yw 'nabod fy Mhrynwr yn Dduw ac yn ddyn."
(Morgan Rhys 1716-79; *C.Ff.* 263)

Hanesion Adeiladu Twr Babel (Genesis 11: 1-9; llun:) *Tower of Babel* gan Lucas van Valckenborch (1535 - 1597) a Breuddwyd Jacob (Genesis 28: 10-22; llun: *Dream of Jacob* gan Michael Willman (1630-1706)) oedd thema myfyrdod ein Cennad yn yr **Oedfa Hwyrol**. Canolbwyntiodd ein Pregethwr Gwâdd ar y prif wahaniaeth rhwng y ddau hanes - hanes dyn yn rhoi ei hunan yn y canol a geir mewn un - "*Dewch, adeiladwn i ni ddinas, a thwr a'i ben yn nefoedd, a gwnawn inni enw ....*" (Genesis 11: 4); Duw sydd yn y canol ym Methel - "*Y mae'n sicr fod yr Arglwydd yn y lle hwn ...*" (Genesis 28: 16). Daw'r gair Babel (fel Babilon) o'r gair *Babili o* un o ieithoedd cynnar Mesopotamia (yr iaith Acadia) yn golygu 'adwy' neu 'ffordd at Dduw' (yn y Beibl Hebraeg defnyddir *Babel* neu *Bavel* a ddehonglir i olygu 'dryswch' neu 'gymysgedd'). Cyfieithir Bethel fel 'Ty Dduw'. Ceir aml gyfeiriad at Bethel fel gwrthwenwyn i Fabel; a chyfeiriodd D J Roberts (Gweinidog Capel Mair, Aberteifi, 1939-1977) yn ei anerchiad o Gadair Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, *Cenadwri Canrif* (1972), mor "*gwbl wrthun*" i'n Ffydd yr hyn ddigwyddodd ym Mabel. Gofynnodd ein Cennad ai dyma oedd yn gyfrifol am y terfysg ar strydoedd Llundain, Manceinion a dinasoedd eraill yn ystod y mis a soniodd am waith unigryw David Shepperd (1929 - 2005) a David Warlock (1920 - 2006) yn ninas Lerpwl yn ceisio sicrhau nad oedd yr 'ysbrydol' a'r seciwlar' yn cael eu gwahanu. Bu hefyd yn sôn am Ddatganiad Barmen (1934) a wnaeth ddatgan yn eglur mai Duw, ac Arglwyddiaeth Crist, ac nid dyn oedd canolbwynt y Ffydd Gristnogol - ysgrifennwyd y Datganiad gan Karl Barth (1886 - 1968) ac eraill, yn cynnwys Dietrich Bonhoeffer (1906 - 1945), ac a gefnogwyd gan Gristnogion megis Lesslie Newbigin (1909-1998) fel modd i wrthwynebu'r tueddiad Natsiaidd oedd yn tyfu oddi mewn i'r Eglwys Almaeneg ar y pryd. Daeth ein Cennad a'i fyfyrdod i derfyn drwy gyfeirio at emyn a cherdd:

"Minnau yn fy myfyrgell
yn gwylio'r byd yn mynd heibio,
yn Affganistan a Libya,
yn Irác a Libanus.
Byd o ddychrynderau a chreulonderau,
o ryfeloedd, gormes a thrais.
Byd o anialwch lle bu dynoliaeth.
Uffern yw bod yn ddyn."

(Geraint Lloyd Owen: cerdd yn dod o dan y pennawd *Anfadwaith* mewn dilyniant o gerddi - *Gwythiennau*. Buddugol yng Nghystadleuaeth y Goron, *Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro 2011*. Cyfansoddiadau a Beirniadaethau (Llys yr Eisteddfod)).

"Dy eiddo ydyw'r orsedd o oes i oes o hyd;
ni syfl ei seiliau cedyrn yn nherfysg gwyllt y byd:
pan syrth gorseddau'r ddaear i'r llwch yn chwalfa sarn,
bydd gorsedd dy gyfamod yn fywyd ac yn farn."

(Amanwy 1882 – 1953; *C.Ff.* 252)

Cafwyd cyfle ar ôl y ddwy oedfa i gymdeithasu a rhannu sgwrs dros gwpanaid o de yn Festri Ebeneser. Heno, daeth ein cyfres o Oedfaon Awst i'w therfyn. Cafwyd bendith fawr yn rhannu addoliad â'n cyd-aelodau yn Eglwysi Cymraeg y Brifddinas. Bu'n anrhydedd i gael cyfle i gyd-addoli a chymdeithasu, gan gynorthwyo ein gilydd i agor y Gair, cyd-weddïo a chryfhau ein tystiolaeth. Awn yn ôl i'n heglwysi'r mis nesaf wedi ein breintio a'n nerthu ar gyfer ein cenhadaeth.

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, bu ein Gweinidog yn paratoi Darlleniadau Dyddiol ar ein cyfer fesul wythnos. Bydd yn parhau â'r arfer am y flwyddyn nesaf gyda chyfres newydd yn cychwyn y Sul nesaf, 4 Medi 2011. Y tro hwn, dosberthir y darlleniadau gyda'r Cylchlythyr Tri Misol yn ychwanegol at ymddangos yng Nghyhoeddiadau'r Wythnos. Byddant hefyd yn ymddangos, fesul mis, ar y wefan. O ddilyn y darlleniadau, nid yn unig cawn gyfle i ddarllen y rhan helaethaf o'r Beibl mewn 12 mis, ond byddwn hefyd, gobeithio, yn fwy hyddysg yng Ngwirioneddau'r Gair. Wrth ail-gydio mewn blwyddyn arall o weithgarwch yn Eglwys Minny Street cawn gyfle yn ystod Mis Medi i edrych nôl, i ddiolch ac i hel atgofion am brysurdeb y 12 mis diwethaf yn Oriel Luniau **"Ein Blwyddyn Ni"** ar furiau'r Festri.

Estynnwn ein llongyfarchiadau, fel Eglwys, i'n pobl ifanc ar eu canlyniadau *TGAU*, *AS* a Lefel *A*; dymunwn y gorau i bawb sy'n paratoi gadael cartref am Goleg a Phrifysgol, neu gychwyn ar ei swydd gyntaf, yn ystod yr wythnosau nesaf.

Munud i Feddwl - 24 Awst 2011

Pwy fyddai'n meddwl y byddai un o ganeuon Edward H. Dafis ac ymweliad â'r barbwr yn ateb un o gwestiynau mawr bywyd? Mae'n cyn-Drysorydd, un o'n Ymddiriedolwyr ac un o Gydlynwyr Masnach Deg

Minny Street yn rhannu'r profiad â ni yn ei Funud y Feddwl yr wythnos hon.

Erastus, Cyfrifiad 2011 a Ffordd Osgoi Porthmadog – 21 Awst 2011

Gydag Eglwysi Ebeneser, Tabernacl, Crwys a Salem yn ymuno â ni heddiw yng nghapel Eglwys Minny Street cafwyd cyfle yn ein gweddïau a'n cyfraniadau ariannol i gofio am drigolion Dwyrain Affrica. Yn ôl y newyddion diweddaraf o Gymorth Cristnogol mae bellach dros 12 miliwn o'n brodyr a'n chwiorydd yn wynebu prinder bwyd eithafol o ganlyniad i'r sychdwr, cynaeafau yn methu, prisiau uchel ar fwyd, terfysg, a digartrefi a mudo. Fe'n harweiniwyd yn ein gweddïau yn ystod y Sul i gofio hefyd am at yr hyn sy'n digwydd yn Nhripoli, Libya, ac yn Afghanistan.

"Rho ynom dy dosturi di,
i weld mai brodyr oll ym ni:
y du a'r gwyn, y llwm a'r llawn,
un gwaed, un teulu drwy dy ddawn."

(Tudor Davies; *C.Ff.* 816)

Erastus, un o gyfeillion Paul yng Nghorinth, yw thema Astudiaeth y Gweinidog ar ein cyfer yr wythnos hon. Dyn pwysig! Gwr â grym a dylanwad ganddo. I Erastus, 'roedd bywyd i gyd yn gysegredig ac ni ellid gwahaniaethu rhwng y materol a'r ysbrydol, y cysegredig a'r cyffredin. Er ei bwysigrwydd a'i rym, 'roedd hefyd yn barod i gydnabod ei ffydd yng Nghrist a'i aelodaeth yn Nheulu'r Ffydd yn gwbl agored. Yng nghanol ei gyfoeth, diogelodd Erastus ei werthoedd ysbrydol. Wrth ein cyfarch yn Eglwys Annibynol Minny Street ym Mis Awst 2011 fe'n hatgoffir gan Erastus bod pob gwaith gan Gristion yn ostyngiad gerbron Duw, mae crefydd aneffeithiol yw crefydd swil, a bod costau bywyd llawer pwysicach na chostau byw. (Llun: Palmant Erastus yng Nghorinth)

Wyneb cyfarwydd iawn i aelodau holl eglwysi Caerdydd, ac yn wir Cymru, esgynnodd i'n pulpud fore heddiw fel ein Pregethwr Gwâdd. Yn wreiddiol o Gastell Newydd Emlyn fu'r Parchedig John Gwilym Jones yn weinidog yn Y Tymbl a Bangor. Yn un o 'Fois Parc Nest' enillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn, bu'n Archdderwydd, yn Gofiadur yr Orsedd a hefyd yn Lywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Pennod gyfarwydd Proffwydoliaeth Eseia, *Pennod 53*, fu'n sail myfyrdod yr **Oedfa Foreol**, gan ganolbwyntio ar y cymal *"... ac ni wnaethom gyfrif ohono"* (Eseia 53:3c). Cyfaddefodd ein Cennad y bu bron iddo anghofio llenwi Ffurflen Cyfrifiad 2011! Yr hyn a'i anogodd i wneud oedd gweld y golygfeydd o bentrefi a threfi arfordir Siapan yn cael eu dymchwel gan don y tsunami. O wylio anferthedd y digwyddiad hwnnw, a'r modd yr oedd miloedd yn colli eu cartrefi yn gwbl ddirybudd, sylweddolodd ein Pregethwr Gwâdd cymaint braint oedd medru llenwi ffurflen gyfrifiad a gwneud hynny o gartref diogel. Er tarfu ychydig ar ein hamserlen ddyddiol, hawdd oedd llenwi'r ffurflen ac ateb y cwestiynau ond beth, gofynnodd, os mai ffurflen cyfrifiad y galon oedd angen ei llenwi? Yn hytrach na ***"Pwy sydd fel arfer yn byw yn y ty hwn?"***, sut fyddem yn mynd ati i ateb cwestiwn a ofynnai: Pwy sydd fel arfer yn byw yn y galon hon? Tebyg y byddem yn medru rhestri



ein meddyliau a'n gweithredoedd da, ond a fyddem mor barod i restri ein heiddigedd a chenfigen?

"O Iesu, maddau fod y drws ynghau
a thithau'n curo, curo dan dristau:
fy nghalon ddrwg a roddodd iti glwyf,
gan g'wilydd wyneb methu agor 'rwyf."

(Elfed 1860-1953, *C.Ff.* 753)

"***Sawl ystafell sydd gennych yn eich ty?***" ... yn eich calon? Hawdd fyddai rhestri ystafelloedd yn y galon i'r teulu, i ddyletswyddau beunyddiol a gwaith, ac i ddiddordebau - a fyddem yn medru rhestri'r ystafell bwysicaf, gofynnodd ein Pregethwr Gwâdd, yr Ystafell Weddi. Fe'n hatgoffwyd o bwysigrwydd yr ystafell hon yn nysgeidiaeth ein Harglwydd ar weddi: *"Ond pan fyddi'n di'n gweddïo, dos i mewn i'th ystafell, ac wedi cau dy ddrws gweddïa ar dy Dad sydd yn y dirgel, ..."* (Mathew 6:6; Llun: Dameg y Pharisead a'r Casglwr Trethi. Fresco ym Masilica Ottobeuren, Yr Almaen). "***Pa gymwysterau sydd gennych?***" Dyna gwestiwn arall - TGAU, Lefel A, Gradd, Diploma neu Brentisiaeth? Ar waelod y Ffurflen Cyfrifiad gwelwyd y geiriau - Dim cymwysterau o gwbl. Beth petai'r cwestiwn ar y ffurflen wedi gofyn, pa rinweddau sydd yn eich calon? - beth fyddai'n hateb? Amynedd? Cymdeithasgarwch? Cyflawnydd tasgau? Fe'n hatgoffwyd o Ddameg Iesu am y Pharisead a'r Casglwr Trethi (Luc 18: 9-14): *"safodd y Pharisead wrtho'i hun a gweddïo fel hyn: 'O Dduw, yr wyf yn diolch iti am nad wyf fi fel pawb arall ....' Ond yr oedd y casglwr trethi yn sefyll ymhell i ffwrdd ... yr oedd yn curo ei fron gan ddweud, 'O Dduw, bydd drugarog wrthyf fi, bechadur'"* Dim cymwysterau o gwbl! A'r cwestiwn olaf ar y ffurflen: "***Pwy biau'r ty?***" Pwy biau'r galon?

"Ti biau'r ty, dy eiddo yw, mi wn;
ond calon falch sydd am feddiannu hwn:
mae'n cadw'i Harglwydd o dan oerni'r ne',
gelynion i ti sy'n y ty'n cael lle.
... "Mae'r drws yn ddatglo, dangos im dy wedd –
Cael dod yn debyg i iti fydd y wledd."

Yr her i ni wrth lenwi ffurflen cyfrifiad y galon yw gwahodd perchennog y ty yn nôl i'r galon fel bod *"gwawr maddeuant"* yn torri *"oddi fry, yr awel santaidd gerddo trwy y ty."* (Elfed; *C.Ff.* 753).

Dameg gyfarwydd y Samariad Trugarog (Luc 10: 25-37) oedd thema ein sylw yn yr **Oedfa Hwyrol**, gan ganolbwyntio ar y cymal *"... aeth heibio o'r ochr arall."* (Luc 10:31) Soniodd ein Pregethwr Gwâdd sut y byddai'r Iddewon, wrth deithio o Galilea i Jerwsalem, yn osgoi'r ffordd unionsyth a oedd yn arwain trwy Samaria ond yn hytrach yn mynd allan o'u ffordd a theithio i Jericho cyn dilyn y llwybr anodd a pheryglus i Jerwsalem. Gwnaent hyn i osgoi'r Samariaid! Gwnawn ninnau, am resymau gwahanol, yr un peth yn ein dyddiau ni. Soniodd y Parchedig John Gwilym Jones am ffordd osgoi arfaethedig Porthmadog - bydd hon, o'i hadeiladu, yn osgoi tagfeydd Porthmadog a chiwiau'r Cob!

(Llun: Llwybr ffordd osgoi arfaethedig Porthmadog) ***Onid, gofynnodd ein Cennad, yw ein parodrwydd i ddefnyddio ffyrdd osgoi yn ddarlun cywir o'r***

Eglwys yn 2011? Bydd ffordd osgoi Porthmadog yn sicrhau na chawn ein dal yn nhrafnidiaeth a phrysurdeb masnachol y dref. Tueddiad yr eglwys ar hyd y blynyddoedd yw ***osgoi ymwneud â byd masnach, a 'phethau'r byd'.*** Onid rôl yr Eglwys yw bod yng nghanol yr hyn a ddigwydd mewn cymdeithas a byd - masnach, yr economi, gwleidyddiaeth a bywyd pob dydd? Gwelir cysywllt yn y cwestiwn hwn a'r hyn a ddysgwn am Erastus yn Astudiaeth Awst ein Gweinidog am yr wythnos hon - un o nodweddion y gwr hwn oedd na wahaniaethau rhwng y materol a'r ysbrydol, y cysegredig a'r cyffredin. O yrru ar ffordd osgoi Porthmadog byddwn hefyd yn osgoi croesffyrdd a chylchfannau'r dref. ***Anghofiodd yr Eglwys mai ffordd Iesu oedd mynd yn groes i'r hyn a oedd yn dderbyniol ac yn gymeradwy gan systemau'r dydd***. Nid addo esmwythfyd a wnaeth ein Harglwydd:

"dysg hi i ofni byw yn esmwyth
gan anghofio'r byd a'i loes,"

(W Pari Huws 1853-1936; *C.Ff.* 839)



Bydd y ffordd osgoi, ar ôl ei hagor, yn sicrhau na fydd angen teithio heibio i gartrefi ac aelwydydd y dref. Bydd hyn yn sicrhau diogelwch a llonyddwch i drigolion Porthmadog. Mae'r ***Eglwys, hithau, wedi llwyddo i osgoi cartrefi ac aelwydydd***; cafwyd ffordd i osgoi dyletswydd rhieni i fagu'u plant yn y Ffydd, i esgusodi dylanwad cartref ac aelwyd mewn hyfforddiant Cristnogol trwy gyfyngu'n Cristnogaeth i oedfa ac Ysgol Sul. Priodol trafod yr ysbrydol oddi mewn i furiau capel ond gwae unrhyw ymdriniaeth o'r pwnc dros fwrdd bwyd ac o amgylch tân yr aelwyd. Sicrhaodd Oedfa, Cwrdd Gweddi ac Ysgol Sul ffordd osgoi heb ei thebyg i ddyletswydd y Cristion ar ei aelwyd. Beth felly yw neges y ddameg?, gofynnodd ein Pregethwr Gwâdd. Sicrhau ein bod ninnau yn gwneud daioni fel y Samariad Trugarog yw'r ateb arferol (Llun: *The Priest and the Levite pass by on the other side*. Ffenestr lliw yn Eglwys y Santes Fair, Hadleigh). Tybed, gofynnodd ein Cennad, oni cheir gwir neges y Ddameg yng ngeiriau'r unigolyn hwnnw a ofynnodd am eglurhad o'r geiriau *"câr dy gymydog"* (Luc 10: 27 a 37) ... bod yn barod i garu'r hwn a wna gymwynas hyd yn oed os yw hwnnw'n elyn. Cofiwn fod Duw yn rhoi o'i haelioni dro ar ôl tro - dysgwn ninnau i dderbyn ei haelioni pa bynnag mor druenus ein stâd.

Fe'n bendithiwyd yn ystod y dydd â dwy oedfa arbennig iawn. Cafwyd cyfle i barhau mewn cymdeithas dros baned yn y festri ar ôl yr Oedfa Hwyrol cyn i nifer ohonom, fel yr wythnos ddiwethaf, o wahanol eglwysi'r ddinas, barhau'r ymgom dros bryd o fwyd. Braf oedd derbyn y newydd fod 'Stafell Fyw Caerdydd bellach yn realiti. Bydd Agoriad Swyddogol y ganolfan gofal dydd newydd ar Ffordd Richmond yn digwydd ar Ddydd Iau, 8 Medi 2011. Yr Ystafell Fyw oedd Elusen Eglwys Minny Street 2010-2011 a gwahoddir aelodau'r Eglwys i ymuno â Chyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill yn y digwyddiad hapus hwn.

Gwelwyd ffrwyth gwaith y Cylch Adeiladau wrth i ni gyrraedd Capel Minny Street fore heddiw – y drysau wedi'u paentio a'r arwyddion hysbysu yn eu lle!

Priodas – 19 Awst 2011

Llongyfarchiadau i **Iwan Walters** a **Kim (Spiller)** ar eu priodas yng Nghapel Minny Street heddiw. Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt.

Munud i Feddwl – 17 Awst 2011

"Y mae gwraig fedrus yn goron i'w gwr" (Diarhebion 12:4). Bu Sally Jones (1753-1814) yn cynorthwyo'i mam a'i llysdad, Thomas Foulks (1731 - 1802), un o ddychweledigion John Wesley (1703 - 1791), i redeg siop lwyddiannus yn Y Bala. Yno cychwynnodd perthynas anhygoel sy'n destun myfyrdod ein cyd-aelod a Llywydd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn ei Munud i Feddwl yr wythnos hon. (Llun: *Eglwys Llanycil)*

Silas, Jona a Ninefe - 14 Awst 2011

Silas a gyflwynwyd i ni heddiw fel ail gymeriad llai adnabyddus yr Eglwys Fore. Cawn ddarllen yn Astudiaeth Awst y Gweinidog am bwysigrwydd Silas fel diplomat, fel Apostol Cynorthwyol ac fel *Amanuensis* neu ysgrifennydd. Annog y Gweinidog i ni i fod fel Silas gan nodi na fu erioed fwy o angen am bobl debyg iddo - pobl ddiwylliedig a chynorthwyol. Yr her i ni yw sylweddoli i fod fel Silas rhaid ildio'n hunain yn gyfangwbl i'r *Amanuensis* Mawr.

Ar ôl cael mwynhau cymdeithas cyfeillion Eglwys y Crwys y Sul diwethaf, tro Eglwys y Tabernacl oedd hi heddiw. Mawr fu'r croeso a braf oedd cael ymgynnull mewn hafan dawel yng nghanol berw a phrysurdeb yr Ais. Cawsom ein bendithio yn ystod y dydd wrth i'r brawd John Derek Rees agor y Gair i ni. Er bellach yn gweithio dros yr Arglwydd yn Abertawe, yng Nghapel Gomer, daw John Derek yn wreiddiol o Gaerdydd. Ar ôl graddio yn Aberystwyth, lle bu'n arwain cenhadaeth gyffrous ymysg y myfyrwyr Cymraeg, bu'n dilyn cwrs hyfforddiant o dan gyfarwyddyd *DAWN Cymru* yn Llansannan cyn gweinidogaethu o dan hyfforddiant yn Rhosllannerchrugog. Bellach, ac o dan nawdd Undeb Bedyddwyr Cymru, mae wrthi yn plannu a meithrin Eglwys i Grist yng Nghapel Gomer, Abertawe.

Neges o argyhoeddiad a her a gafwyd yn yr **Oedfa Foreol**. Hanes Jona (Llun: Jonah and the Whale gan He Qi (gan. 1953)) oedd thema'r myfyrdod. Fe'n hatgoffwyd o sut y bu i Jona glywed Galwad Duw; sut y bu iddo anufuddhau a cheisio osgoi presenoldeb Duw; sut, ymhen amser, daeth i gyffesu ei anufudd-dod a dod i ddeall canlyniadau'r fath ymddygiad; sut bu i Dduw yn ei achub; *"a llefarodd yr Arglwydd wrth y pysgodyn, a chwydodd yntau Jona ar y lan."* (Jona 3:10) Cyn ymuno â Jona ar y traeth gofynnodd ein Cennad, onid darlun o iachawdwriaeth a geir yma? Onid yw'r hyn a ddigwyddodd i Jona, a'r tymhestloedd ysbrydol y bu iddo fynd trwyddo, yn hynod o debyg i'r hyn a ddigwydd i bob Cristion ar Daith y Ffydd? Gan ganolbwyntio ar y Drydedd Bennod o Lyfr Jona, sy'n dod o dan y pennawd **Ufudd-dod Jona**, tynnodd y Pregethwr ein sylw at nifer o bwyntiau (Jona 3: 1-3). Yn gyntaf, rhaid sylweddoli nad achub Jona rhag boddi a

wnaeth y morfil ond ei achub i fynd i Ninefe (Llun: *Jonah and the Whale* gan Pieter Lastman (1583 - 1633)). Yn yr un modd, fe'n hachubwyd ninnau gan Grist nid dim ond rhag ein pechodau ond i fod yn dystion a gweithwyr dros ei Deyrnas yng Nghaerdydd yn 2011. Yn ail, estyn Duw ail gyfle i Jona i fynd i Ninefe i wneud Ei waith; er i ninnau fethu yn aml nid yw Duw yn troi ei gefn arnom, estyn cyfle ar ôl cyfle i ni ymateb yn bositif i'w Alwad. Estyn Duw ail-, trydydd-, pedwerydd- … ... siawns i ni i fyw'r bywyd y cawsom ei greu i'w fyw. Yn drydydd, tynnodd ein Cennad ein sylw at y ffaith bod Galwad Duw i Jona yr union yr un fath yr ail waith ag yr oedd y tro cyntaf. Nid oes yna unrhyw sylw yng ngofyniad Duw i wneud i Jona deimlo'n euog, nid oes yna unrhyw atgof o'r anufudd-dod ac ni cheisia Duw frawychu Jona i gytuno i'w gais - golchwyd y llechen, mae'r ail-gyfle yn union fel y cyfle cyntaf! Onid cynhyrfus, gofynnodd John Derek, yw'r ffaith bod Duw, yng Nghapel y Tabernacl, yn ein galw o'r newydd, gyda llechen lân, pa beth bynnag bo'n hanes a'n cefndir, i dderbyn ei Alwad a mynd ati i wneud ei waith? Beth all fod yn fwy cynhyrfus?

Parhau gyda Hanes Jona a wnaethom yn yr Oedfa Hwyrol gan ganolbwyntio, y tro hwn, ar ddatganiad Jona: ""*Ymhen deugain diwrnod fe ddymchwelir Ninefe*"" (Jona 3: 4). Eglurodd ein Cennad mai sôn am droi, neu newid, a wna'r cymal. (Llun: "*Cododd Jona a mynd i Ninefe* ..." (Jona 3: 3) - allan o gyfres cartwnau gan Martin Young) Beth bynnag a ddigwydd - p'un ai dal i fyw'r un bywyd neu newid ei ffordd o fyw a wna Ninefa, bydd yna newid! Naill ai dinistr neu achubiaeth - byddai newid yn dod ar draws Ninefe! (Llun: "*Ymhen deugain diwrnod fe ddymchwelir Ninefe*" (Jona 3:4) - allan o gyfres cartwnau gan Martin Young) Tebyg yw'r daith i ninnau - mae'r llwybr yn dibynnu ar ein hymateb i Wahoddiad Crist ond bydd yna newid yn digwydd beth bynnag bo'n ateb. O glywed Jona yn datgan, *"Credodd pobl Ninefe yn Nuw"* (Jona 3: 5a). Aeth trigolion y ddinas ati i ymprydio a *"gwisgo sachliain, o'r mwyaf hyd y lleiaf ohonynt."* (Jona 3: 5b) A dyna'r her i ninnau - a ydy'n cyfoedion, a ydy'n cymdeithas yn credu yn Nuw o ganlyniad i'r hyn a ddywedwn ni, a'r modd yr ydym yn byw ein bywyd? Dyna ein cenhadaeth, dyna ein comisiwn. Fe'n hatgoffwyd gan y Pregethwr mai arwyddion o'r ffaith eu bod wedi dod i gredu yn Nuw oedd ymatebion ymarferol trigolion Ninefe. (Llun: "*at frenin Ninefe ... diosg ei fantell a gwisgo sachliain ac eistedd mewn lludw*" (Jona 3:6) - allan o gyfres cartwnau gan Martin Young) Mae angen i ninnau gofio nad trwy weithredoedd da y down yn agosach at Dduw a Christ, ond ymetyb y Cristion i'w gymdeithas mewn ffordd bositif o ganlyniad i'w Ffydd. Yn olaf, tanlinellodd ein Cennad er i Ninefe droi ac edifarhau syrthio nôl i'r un drygioni a wnaeth genedlaethau yn ddiweddarach (Nahum 1 a 2). Nid digon bod ein cyndeidiau ninnau wedi arddel ac ymrwymo i Grist, rhaid i ninnau, heddiw, gyflwyno a derbyn her a chenhadaeth yr Arglwydd.

Wedi ein bendithio â dwy genadwri yn llawn didwylledd ac ymrwymiad, braf oedd cael cyfle i barhau ein cymdeithas dros baned yn y festri ar ôl y ddwy oedfa. Cymerodd rhai ohonom, o wahanol eglwysi'r ddinas, gyfle i barhau'r ymgom a'r drafodaeth o negeseuon y dydd trwy

ymuno â nifer o aelodau'r Tabernacl mewn pryd o fwyd cyn troi tuag adref ar ôl Sul bendithiol arall.

Adeiladu Pontydd – amhosibl? - 11 Awst 2011



Erbyn hyn mae Katerina Jonathan, un o'r myfyrwyr sy'n mynychu ein hoedfaon, ar ei ffordd nôl o'r Iseldiroedd wedi treulio nifer o wythnosau yn cyd-weithio a chyd-addoli gyda Christnogion eraill o draws Ewrop yn y Ty Cenhadol yn Amsterdam o dan nawdd Cyngor y Genhadaeth Fyd-Eang (*CWM*). Edrychwn ymlaen yn eiddgar i'w chroesawu yn ôl i Eglwys Minny Street yn yr Hydref. Yn ystod ei hamser yn Amsterdam bu Katerina yn gweithio mewn ysgolion, yn ymweld â gwahanol ardaloedd yn Amsterdam ac yn treulio amser gyda nifer o grwpiau elusennol sy'n estyn cymorth i drigolion anghenus y ddinas. Gyda'r 30 o gynrychiolwyr eglwysi bu'n "*adeiladu pontydd*" ymysg ei chyd-ddinasyddion. Wrth hel atgofion, meddai: *"Cefais y dasg o fod yn dywysydd i'r plant drwy ddefnyddio arth o'r enw Bob!*(Llun: Katerina a Bob!) *Swydd hynod o bwysig! Er fy mod wedi poeni ychydig ar y dechrau o ran cyfathrebu gyda'r plant - erbyn diwedd y diwrnod cyntaf roeddwn yn cyfathrebu yn grêt drwy ddefnyddio geiriau syml Iseldiraidd a llawer o wynebau a symudiadau amrywiol!*" Noda Katerina yn ei neges ddiweddaraf, *"bu hwn yn brofiad arbennig ac unigryw; un a fydd yn dylanwadu arnaf am amser i ddod."* Ceir braslun o'i gweithgarwch ar wefan "*Mission: Impossible? "Bruggen bouwen – building bridges""*.

Munud i Feddwl – 10 Awst 2011

Ydy'ch oergell wedi'i gorchuddio? A ellir ôl-rhain hanes teithiau'ch bywyd trwy fod yn y gegin? Eisiau her a rhywbeth i'w wneud dros wythnosau'r haf? Cynnig Ysgrifennydd Ymddiriedolwyr ein Heglwys fodd i chwi ddilyn Gorchymyn yr Iesu (Marc 16:15) yn ei Munud i Feddwl yr wythnos hon!

Gweddi dros ein Cymdeithas - 9 Awst 2011

"*Dduw Trugarog, gweddïwn dros ein cymunedau. Cyflwynwn i'th ofal pawb sy'n gweithio dros heddwch, yn ceisio lleddfu tensiynau ac yn ceisio sicrhau bod cyfraith a chyfiawnder yn teyrnasu. Gweddïwn am ddiflaniad pob ofn, am gymorth a chefnogaeth i'r rheini sy'n dioddef, ac am strydoedd a dinasoedd heddychlon lle gall pawb fyw a gweithio mewn diogelwch a sicrwydd. Clyw ein gweddi. Amen.*"

(Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, 2011)

Yr Eisteddfod, Barnabas a Chaniad Solomon – 7 Awst 2011

"Yr oeddwn yn llawen pan ddywedasant wrthyf, "Gadewch inni fynd i dy'r Arglwydd."" (Salm 122: 1) Dyna'n sicr sut y teimlai pawb wrth ddod at ei gilydd i gapel Eglwys y Crwys fore heddiw a chael cyfle, ar ôl wythnos o fwynhad Eisteddfodol, i ddiolch i Dduw am ei holl fendithion i'n cenedl, ac i adfer nerth ac ysbryd. A hithau'n Sul cyntaf Mis Awst daeth cyfle i fyfyrio ar y cyntaf mewn cyfres o Astudiaethau Awst y Gweinidog. Cymeriadau llai adnabyddus yr Eglwys Fore yw thema'r myfyrdodau a'r cyntaf i ddod o dan y chwyddwydr yw **Barnabas**. Ceir gair da iawn i Barnabas yn Llyfr yr Actau: darllenwn amdano fel *"dyn da, yn llawn o ffydd"* (Actau 11:24). Yn ei astudiaeth ystyria'r Gweinidog dair nodwedd o'i gymeriad - haelioni, menter a maddeuant - a gofynna beth sydd gan Barnabas i'w ddysgu i ni yn 2011?

Y Parchedig Dafydd Andrew Jones oedd ein Cennad Gwâdd heddiw. Wedi ymddeol ar ôl cyfnod o 26 mlynedd fel aelod o staff Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn fwyaf diweddar fel Cyfarwyddwr Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth yr Eglwys, dal ei gysylltiad â gwaith yr enwad fel Ysgrifennydd Henaduriaeth Morgannwg-Llundain. Cariad oedd thema ganolog ein **Hoedfa Foreol**. Fel rhagarweiniad i'w neges taflodd y Pregethwr Gwâdd gipolwg ar Wythnos yr Eisteddfod. Soniodd am yr ymdeimlad o hapusrwydd a fu'n nodwedd o'r digwyddiad; bron na ellid sôn am yr Wythnos fel profiad ysbrydol, meddai. Beth sy'n nodweddu profiad o'r fath?

Diolchgarwch – am ymdrech a pharatoad, am ddycnwch a brwdfrydedd, ac am ymarfer a dyfalbarhad. **Llawenydd** – hynny yn dod o greadigrwydd yn ein dyrchafu, a sicrwydd o ddilyniant i'n treftadaeth yn ein cysuro. Soniodd y Pregethwr yn benodol am y llawenydd a deimlwyd Brynhawn Gwener wrth anrhydeddu Bardd y Gadair a'r sylweddoliad a ddaeth yn sgil y digwyddiad hwnnw bod yr 'awen' mewn dwylo diogel. Fe'n hatgoffwyd, er hynny, mor hawdd yw anghofio mai o Dduw y daw pob creadigrwydd:

"Arglwydd mawr y cyfrinachau,
ti yw saer terfynau'r rhod,
artist cain yr holl ddirgelion
a chynlluniwr ein holl fod:"

(Dafydd Whittall (1948-2010) *C.Ff.* 101)

Perthyn - cynheswn yn yr ymdeimlad ein bod yn perthyn i'n gilydd fel cenedl, trwy ein hiaith a'n diwylliant yn fwyaf arbennig, ond hefyd i'r teulu dynol - cafwyd cyfle yn ystod yr Wythnos i ymarfer ein perthynas rhyngwladol trwy uniaethu mewn gwahanol weithgarwch â thrigolion Somalia, Ethiopia a Kenya, a thrwy gofio Hiroshima. Ond, meddai'r Pregethwr Gwâdd, y perthyn mwyaf dwfn a sylfaenol yw ein perthynas â Duw. Dyma'r neges sydd gennym, fel credinwyr, i'w gynnig i'n cenedl. Dyma ein braint a'n dyletswydd. Sylfaen y berthynas hon yw cariad - y cariad a gyfeirir ato yng Nghaniad Solomon fel gardd *"yn llawn o'r ffrwythau gorau, henna a nard, nard a saffrwn, calamis a sinamon"* (Caniad Solomon 4: 13-14) a'r cariad a ddangoswyd trwy *"(f)od Duw wedi anfon ei unig fab i'r byd er mwyn i ni gael byw drwyddo ef."* (1 Ioan 4: 9) Yr her i ni, Gristnogion Cymru, wedi wythnos hapus a llwyddiannus o Eisteddfota yw sicrhau bod ein cenedl yn sylweddoli ei blaenoriaethau a gwir sail ei bodolaeth, a'n bod, yng nghanol pob llên, cân, celfyddyd a dyfeisgarwch, yn gwasgaru persawr gardd cariad Duw (Caniad Solomon 4: 16) ymysg ein cyd-ddinasyddion.

Dilyn thema a delwedd Caniad Solomon o ardd a wnaethom yn **Oedfa'r Hwyr**. Man cyfarfod yw'r ardd a hefyd, gyda'i *"ffynnon o ddyfroedd byw"*

(Caniad Solomon 4: 15; llun), man tyfiant. Gardd yw'r Eglwys - man i gyfarfod â chyd-ymdeithion ar Ffordd y Ffydd a hefyd man i ffrwythloni a sicrhau maeth ar gyfer tyfiant ysbrydol yn yr Arglwydd. Canolbwyntiodd y Pregethwr Gwâdd ar dair nodwedd o'r Ardd. Yn gyntaf, mae ynddi **hiraeth** am gymundeb â ddoe - yr hadau a blannwyd gan eraill, y tir a fraenarwyd a'r tyfiant a fagwyd. Yn y ffrwythau gwelir llewyrch ystod eang o brofiad, teyrngarwch ac arbenigedd. Ceir yn yr ardd hefyd **ddyhead**. Gwyddom na fedrwn fyw ar ddoe - rhaid dal i feithrin a thrin y tir. Nid digon dibynnu ar hyn a wnaed ddoe, rhaid sicrhau maeth a gwarchod yr ardd mewn dulliau sy'n briodol i'w hanghenion heddiw - parhau'r gwaith mewn oes wahanol yw'r gamp a'r her. Er hiraethu am ddoe erys y dyhead i dyfu yn nhir heddiw. Man cyfarfod cariadon yw'r ardd yng Nghaniad Solomon, llecyn o **addewid** - cyfle i wneud addewidion, un wrth y llall, a chyfle hefyd i brofi o addewidion disymud Duw. Yma gwneir addewidion i glymu ni'n un - at ein gilydd a gyda Duw. Trwy ganolbwyntio ar addewidion yr ardd fe'n harweiniwyd at Fwrdd y Cymun, sacrament sy'n ei hatgoffa ni o Addewidion Duw. Hollol angenrheidiol, meddai'n Cennad, yw sicrhau ymweliadau cyson â'r ardd. Ynddi, o amgylch Swper yr Arglwydd, cawn dyfu yn Nuw. Ynddi, wrth dorri'r bara ac yfed y gwin, cawn dyfu a dwyn ffrwyth yng nghariad digyfnewid Duw. ***Yng Ngardd Sacrament Bwrdd yr Arglwydd cawn hiraethu am yr hyn a blannwyd ddoe, gan ddyheu am dyfiant heddiw yn gwybod am Addewid Duw ar gyfer yfory.*** Neges heriol ar ddiwedd Sul bendithiol.

Estynnwn ein llongyfarchiadau i holl aelodau Eglwys Minny Street fu'n ymwneud â'r Eisteddfod: yn gystadleuwyr, yn rhai a fu'n cymryd rhan yn Seremonïau'r Wyl, yn weithwyr gwirfoddol yn sicrhau llwyddiant yr Eisteddfod mewn amryw ffordd ac yn hyfforddwyr.

Munud i Feddwl – 3 Awst 2011

Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam sy'n mynd â sylw ein Hysgrifennydd Cyhoeddiadau mewn Munud i Feddwl yr wythnos hon. Ond nid Eisteddfod 2011! Yn hytrach, Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1912. T H Parry-Williams, Ann Griffiths, John Hughes Pontrobert, '*John Jones Glynfach*' a Hywel Teifi Edwards. Mae'r fatsien wedi tanio'r cof!